

Pub is the Hub Case Study

The New Inn, Llanddewi Brefi, Tregaron, Ceredigion SY25 6RS



Mae New Inn Llanddewi Brefi yn dafarn draddodiadol sy'n cynnig amrywiaeth eang o gwrw a lle tân clud y gall cwsmeriaid eistedd yn ei wres. Yn ystod yr haf gall y cwsmeriaid eistedd yn yr ardd gwrw a gweld Dyffryn Brefi hardd ar daen.

Mae Llanddewi Brefi yn yr ail blwyf mwyaf yng Nghymru ac yn hanesyddol, un o'r enwocaf. Mae'r plwyf yn arwyddocaol yn hanes Cymru ers oes y Rhufeiniaid. Tregaron ydy'r dref agosaf, rhyw dair milltir o Landdewi Brefi. Mae tua chwe chant o bobl yn byw yn Llanddewi Brefi ac mae yno siop leol, dau gapel, eglwys, ysgol a thafarn arall. Yn anffodus does dim Swyddfa'r Post ers cau'r un a arferai fod yma yn 2011.

Mae Yvonne Edwards yn dal trwydded y New Inn ers chwarter canrif a chyn hynny roedd hi'n gweithio ym maes adwerthu am dair blynedd ar ddeg.

Derbyniodd Yvonne wahoddiad i weithdy amrywio lleol gan Y Dafarn yw'r Galon. Penderfynodd hi fynd yno i gael gwybodaeth oherwydd, er bod busnes yn dda yn y dafarn, roedd hi am ychwanegu gwasanaeth arall lleol ar gyfer y gymuned. Credai y byddai hyn yn fantais yn lleol.

Ar ôl y gweithdy, daeth cynghorwr lleol Y Dafarn yw'r Galon ar gyfer Cymru i weld Yvonne yn y dafarn. Trafodon nhw fwy o wybodaeth ac enghreifftiau o gynlluniau a syniadau blaenorol.

Does dim sinema nac ystafell ymgynnull gymunedol yn lleol, a themlai Yvonne y byddai cynnig y gwasanaethau hynny'n rhywbeth ardderchog y gallai'r New Inn gynnig. Roedd estyniad yn barod ar y dafarn ond roedd ar Yvonne angen grant er mwyn prynu dodrefn ac i osod taflunwyr. Roedd posib gwneud cais o fewn y grant ar gyfer adnewyddu'r gegin gan fod cynnig clwb cinio hefyd yn rhan o'r cynlluniau. Mae disgwyl dechrau hynny'n fuan yn 2015.

Er mai newydd ei ddechrau mae'r prosiect, yn nhymor yr hydref 2014, mae'r adborth amdano wedi bod yn gadarnhaol hyd yma.

Yn ogystal â chynnig y clwb sinema ac ystafell gyfarfod gymunedol newydd, mae'r New Inn yn cynnal digwyddiadau elusennol ar gyfer y Clwb Pwdin, rasys Ceiliogod a Moch, cyfarfodydd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon Leol a nosweithiau ar gyfer yr Ambiwllans Awyr. Mae'r dafarn wedi sefydlu cyfnewidfa lyfrau / llyfrgell fechan ar gyfer cwsmeriaid ac mae'n gwerthu cynnyrch lleol ar ran y cynhyrchwyr, yn cynnwys jam, cyffraith a phiclaau cymysg.

Cyfanswm cost y prosiect – £13,000

Grand Cyllid Buddsoddi mewn Micro Fusnes Ceredigion £5,000

LICENSEE CONTACT:

TEL:

PUB OWNER:

Yvonne Edwards

01974 298452

Independent

I wybod mwy, cysylltwch â ni ar 01423 546165 neu anfonwch e-bost at enquiries@pubisthehub.org.uk